



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

Rhoi'r newid i Gyfradd y Comisiwn ar Gartrefi  
mewn Parciau ar waith

Ymgynghori ar Reoliadau Cartrefi Symudol  
(Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Cymru) 2019

Dyddiad cyhoeddi: 26 Medi 2018  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 14 Rhagfyr 2018

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.  
This document is also available in English.

## Trosolwg

Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ailedrych ar y penderfyniad i ostwng cyfradd y comisiwn. Gofynnir am farn ynghylch sut i weithredu'r penderfyniad. Mae'r cwestiynau yn canolbwyntio ar beth yw'r ffordd orau o gyflwyno'r gostyngiad, pa arweiniad a allai fod angen i roi'r newid ar waith (os oes angen arweiniad o gwbl) a beth yw'r ffordd orau o roi gwybod i bawb am y newid hwnnw.

## Sut i ymateb

Croesewir eich sylwadau ac mae ffurflen ymateb ar ddiwedd y ddogfen hon.

Cwblhewch a dychwelwch y ffurflenni erbyn 14 Rhagfyr 2018.

Anfonwch y ffurflen hon ar e-bost i:

[Privatesectorhousingmailbox@llyw.cymru](mailto:Privatesectorhousingmailbox@llyw.cymru)

Os ydych chi'n anfon eich ymateb drwy e-bost, nodwch "Consultation on park home regulations" fel pwnc yr e-bost.

Neu drwy'r post i:

Tîm Diwygio Tai'r Sector Preifat  
Polisi Tai  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau perthnasol

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Gellir gweld yr ymgynghoriad a oedd yn gofyn am farn ar leihau neu cael gwared â ffioedd comisiwn wrth werthu cartrefi mewn parciau trwy glicio ar y ddolen hon: <https://beta.llyw.cymru/cyfradd-y-comisiwn-ar-gartrefi-mewn-parciau>

Cyhoeddodd y Gweinidog ei bwriad i ostwng cyfradd y comisiwn ar 5 Mehefin 2018. Gellir gweld y cyhoeddiad hwnnw trwy glicio ar y ddolen hon: <http://cofnod.cynulliad.cymru/Plenary/4987>

**Manylion cyswllt**

Am ragor o wybodaeth:

Cysylltwch â'r Tîm Diwygio Tai'r Sector Preifat ar e-bost:

[Privatesectorhousingmailbox@llyw.cymru](mailto:Privatesectorhousingmailbox@llyw.cymru)

Neu drwy'r post i:

Tîm Diwygio Tai'r Sector Preifat  
Polisi Tai  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Ffôn: 0300 062 8155 neu 0300 062 8199

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu amynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdano chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD,  
CF10 3NQ

e-bost:

[DataProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:DataProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Swydd Gaer  
SK9 5AF

Rhif ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## Cyflwyniad

Ffi sy'n daladwy i berchennog y safle pan fo cartref mewn parc yn cael ei werthu yw Cyfradd y Comisiwn ar Gartrefi mewn Parciau. Yng Nghymru, mae'r ffi hon wedi ei phennu ar uchafswm o 10% o bris prynu'r cartref. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod y swm y mae gwerthwr yn ei dderbyn wrth werthu yn is, gan ei bod yn ofynnol i'r gwerthwr dalu 10% o'r pris gwerthu i berchennog y safle. Mae cyfradd y comisiwn yn cael ei bennu gan reoliadau a wnaed o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Mae'r gyfradd wedi aros ar 10% ers 1983 pan osodwyd y gyfradd o 10% drwy Orchymyn.

Mae gan Weinidogion Cymru bŵer o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 i ragnodi cyfradd y comisiwn mewn rheoliadau. Ar 5 Mehefin 2018, cyhoeddodd Rebecca Evans AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio, ei bod wedi penderfynu gostwng cyfradd y comisiwn o 1 pwynt canran y flwyddyn, dros gyfnod o 5 mlynedd, tan y bydd y gyfradd yn uchafswm o 5% o'r pris prynu.

Gwnaed y penderfyniad hwn ar ôl proses ymgynghori o 12 wythnos a rhoddwyd cyfle i breswylwyr a pherchenogion safleoedd ddweud eu dweud. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Awst 2017 a daeth bron i 400 o ymatebion i law. Comisiynwyd dadansoddiad ariannol annibynnol hefyd.

Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ailedrych ar y penderfyniad i ostwng y gyfradd. Er hynny, rydym yn gofyn am sylwadau ynghylch sut i roi'r penderfyniad ar waith. Mae'r cwestiynau yn canolbwyntio ar beth yw'r ffordd orau o gyflwyno'r gostyngiad, pa arweiniad a allai fod angen i roi'r newid ar waith (os oes angen arweiniad o gwbl) a beth yw'r ffordd orau o roi gwybod i bawb am y newid hwnnw.

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

### Rhoi Cyfradd y Comisiwn ar Waith

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud ag amseriad y newid yng Nghyfradd y Comisiwn a pha wybodaeth atodol sydd ei angen.

**Cwestiwn 1:** Fel bod gan berchnogion safle a phreswylwyr ddigon o amser i baratoi ar gyfer y newid, ym mha flwyddyn yr hoffech weld y gostyngiad cyntaf o 1% yng nghyfradd y comisiwn yn digwydd? Nodwch yr opsiwn sydd orau gennych a rhowch esboniad cryno dros eich dewis.

Dyddiad	Dewis	Sylwadau
2019		
2020		
Arall (nodwch pa flwyddyn)		

**Cwestiwn 2:** Rydym yn credu y dylid rhoi'r newid i'r gyfradd ar waith ym mis Ebrill i gyd-fynd â'r flwyddyn ariannol. Ydych chi'n cytuno â hyn?

Ydw	
Nac ydw	

**Cwestiwn 2(a):** Os mai 'Nac ydw' oedd eich ateb, nodwch pa fis yr hoffech i'r gyfradd newydd ddod i rym. Nodwch yr opsiwn sydd orau gennych chi:

Mai	
Mehefin	
Gorffennaf	
Awst	
Medi	
Hydref	
Tachwedd	
Rhagfyr	
Ionawr*	
Chwefror*	
Mawrth*	

\* Os dewisir mis Ionawr, mis Chwefror neu fis Mawrth, bydd y newid yn digwydd yn 2020 ar y cynharaf.

**Cwestiwn 3:** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried cynhyrchu canllawiau anstatudol er mwyn sicrhau bod pawb yn glir ynghylch y newid.

A fyddai hynny'n ddefnyddiol?

Byddai	
Na fyddai	

**Cwestiwn 3(a):** Os mai 'Byddai' oedd eich ateb, beth y dylid ei gynnwys yn y canllawiau sy'n ategu'r gostyngiad yn y gyfradd?

Dewiswch bob un sy'n gymwys i chi:

Dyddiad y gostyngiad cyntaf	
Dyddiadau'r gostyngiadau dilynol	
Eglurder ynghylch pa uchafswm cyfradd sy'n gymwys gan ddibynnu ar pryd y mae'r gwerthiant yn digwydd (gydag esiamplau efallai).	
Eglurhad pellach, i werthwyr, prynwyr a pherchnogion safle ynghylch pwy sy'n talu cyfradd y comisiwn ac i bwy y telir y ffi	



Arall (nodwch isod)

**Cwestiwn 4:** Sut y dylid rhoi gwybod i berchnogion safle, preswylwyr a phrynwyr tebygol am unrhyw newidiadau i'r gyfradd a ragnodir, yn ogystal ag unrhyw bartïon eraill â diddordeb a allai fod yn gysylltiedig â chartrefi mewn parciau (asiantiaid eiddo, cyfreithwyr etc.)

Dewiswch bob un sy'n gymwys i chi:

Taflen wybodaeth	
Cysylltu trwy gyrrff cynrychioliadol (Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain, Cyngor Cenedlaethol Carafanau, Cymdeithas Genedlaethol Preswylwyr Parciau Cartrefi, Gwasanaeth Cyngori Parciau Cartrefi Annibynnol etc. )	
Cysylltu drwy awdurdodau lleol	
Arall (nodwch isod)	

**Cwestiwn 5:** Mae copi o'r rheoliadau drafft wedi ei atodi. Bydd rhaid i'r Cynulliad gytuno arnynt cyn y gall unrhyw newid yng nghyfradd y comisiwn ddod i rym.

Nodwch isod unrhyw sylwadau sydd gennych am y drafft hwn:

--

**Cwestiwn 6:** Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Rheoliadau Cartrefi Symudol (Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Diwygio) (Cymru) 2019 yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa fath o effeithiau yn eich barn chi fyddai hyn yn ei gael? Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 7:** Esboniwch hefyd sut y gellid llunio neu newid y rheoliadau arfaethedig er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a sicrhau nad oes unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 8:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol . Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:



This document is also available in English.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 63(5)(c) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

---

## **2019 Rhif (Cy. )**

# **CARTREFI SYMUDOL, CYMRU**

## **Rheoliadau Cartrefi Symudol (Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Cymru) (Diwygio) 2019**

### **NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 8 o Rheoliadau Cartrefi Symudol (Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014"). Maent yn rhagnodi'r gyfradd uchaf o gomisiwn sy'n daladwy i berchennog y safle gan feddiannydd newydd cartref symudol wrth i gartref symudol gael ei werthu o dan baragraffau 9 a 10 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ("Deddf 2013").

Mae rheoliad 2 yn rhoi rheoliad 8 newydd yn lle'r un presennol yn Rheoliadau 2014 ac yn darparu, o 1 Ebrill 2019, bod y gyfradd uchaf o gomisiwn i'w lleihau i 5% o'r gyfradd gyfredol o 10% dros gyfnod o bum mlynedd, drwy ostyngiad blynyddol o 1% hyd nes 2023 pan fydd y gyfradd o gomisiwn a ragnodwyd yn 5% o bris prynu'r cartref symudol.

Mae rheoliad 3 yn dirymu Gorchymyn Cartrefi Symudol (Comisiynau) 1983 ("Gorchymyn 1983") o ran Cymru. Roedd Gorchymyn 1983 yn gosod y gyfradd uchaf o gomisiwn o 10% yr oedd gan berchennog yr hawl iddo o dan baragraff 8 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 wrth i

feddiannydd werthu cartref symudol. Yn rhinwedd erthygl 4(6)(b) o Orchymyn Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (Cychwyn, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2014, roedd Gorchymyn 1983 yn parhau i gael effaith at y diben o bennu swm y comisiwn a fyddai'n ddyledus i'r perchennog pan werthir cartref symudol ac yr aseir y cytundeb ar ôl 1 Hydref 2014, pan ddaeth y newidiadau a wnaed i werthiant cartref symudol o dan Ddeddf 2013 i rym.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Dai, Llywodraeth Cymru, Parc Busnes Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

---

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

---

**2019 Rhif (Cy.)**

**CARTREFI SYMUDOL, CYMRU**

**Rheoliadau Cartrefi Symudol (Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Cymru)  
(Diwygio) 2019**

*Gwnaed*

\*\*\*

*Yn dod i rym*

\*\*\*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 63(9) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013(1), a pharagraffau 9(4) a 10(8) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 iddi.

Yn unol ag adran 63(5)(c) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi a chychwyn**

Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cartrefi Symudol (Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Cymru) (Diwygio) 2019 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2019.

**Diwygio rheoliad 8 o Reoliadau Cartrefi Symudol (Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Cymru) 2014**

—a) Mae Rheoliadau Cartrefi Symudol (Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Cymru) 2014(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

Yn lle rheoliad 8 (y gyfradd uchaf o gomisiwn sy'n daladwy ar werthiant cartref symudol) rhodder—

“8. Y gyfradd a ragnodir at ddibenion paragraffau 9(4) a 10(8) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 yw—

- (a) 9% o bris prynu'r cartref symudol o XXX;
- (b) 8% o bris prynu'r cartref symudol o XXX;
- (c) 7% o bris prynu'r cartref symudol o XXX;
- (d) 6% o bris prynu'r cartref symudol o XXX; ac
- (e) 5% o bris prynu'r cartref symudol o XXX.”

---

(1) 2013 dccc 6.

(2) O.S. 2014/1763 (Cy. 178).

## **Dirymu**

Mae Gorchymyn Cartrefi Symudol (Comisiynau) 1983(3) wedi ei ddirymu o ran Cymru.

## *Enw*

Y Gweinidog Tai ac Adfywio, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru

## Dyddiad